**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**3/10/23**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd), Llinos Edwards, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc) **Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2951 Sylwadau'r Cadeirydd:** Llongyfarchodd Soar Cynllwyd ar fis o ddathliadau dau gan mlwyddiant ers sefydlu'r achos. Llongyfarchodd Menter Cymunedol ar gyrraedd y nod ariannol sy'n eu galluogi i brynu'r Eagles.
Adroddodd am gyfarfod positif rhwng swyddogion Cyngor Gwynedd ac Ymddiriedolwyr Elusen Maurice Vaughan yn ddiweddar i drafod sut gall y naill a'r llall gefnogi ei gilydd wrth ddarparu cartrefi yn y gymuned. Diolchodd am bresenoldeb Alwyn E Jones yn Cynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfod. Diolchwyd hefyd i'r y Cynghorydd Alan Jones Evans o Gyngor Gwynedd am ei gyngor doeth ar y materion hyn.
Eglurodd y Clerc yr addasiadau yn yr arfaeth yn "Scheme" yr elusen – yn gryno, blaenoriaeth i bobl dros 55 oed mewn angen o'r plwy, wedyn unrhyw un arall sydd wedi bod yn byw yn y plwy ers 5 mlynedd neu drosodd, ac wedyn ymestyn i gynnwys plwyfi Llangywer a Llanycil. Eglurwyd mai PRESWYLWYR ydynt, nid tenantiaid. Maent yn gwneud CYFRANIAD tuag at Gynnal a Chadw, yn hytrach na thalu rhent. Cytunodd y Cyngor, yn cynnwys aelodau Sylfeini, â'r newidiadau.

**2952 Ymddiheuriadau:** Alwyn M Roberts, Arwel Lloyd Jones a Rhodri Prys Jones .

**2953 Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**2954 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5/9/23.

**2955 Materion y Clerc:**

i. 2538 Openreach – derbyniwyd neges i ddweud fod yr addewidion i uwchraddio yn cynyddu. Cytunwyd i bob Cynghorydd geisio cael 3 addewid ychwanegol. Dywedodd y Clerc y byddai'n ail-anfon y rhestr at y Cynghorwyr.
ii. 2528ii TG y Cyngor: Adroddodd Huw Antur o gyfarfod Pwyllgor y Neuadd. Cytunwyd i dalu hanner cost troli, meic a chamera aml-gyfeiriad a'r ategion perthnasol.
iii. 2528iii Camerâu ANPR: er y siom o glywed am gostau uchel yn y cyfarfod diwethaf, adroddodd Huw Antur iddo dderbyn neges bositif gan Chris Livesey yn ddiweddar. Gobeithir y bydd y Rhingyll Simon Barlow yn gallu cyd-gordio rhwng y gymuned a'r Heddlu.
iv. 2549ii Manylion cais cynllunio o'r gorffennol – derbyniwyd gwybodaeth am y cais ac nid oes lle i bryderu fod yr amodau wedi eu torri.

**2956** **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd. Yn drist iawn, mae'r rhaglen gwella diogelwch yr A494 wedi ei gohirio am 2 flynedd arall. Mae Mabon ap Gwynfor yn parhau i bwyso am welliannau.

Mae Karl Jones, swyddog newydd y cefnffyrdd, yn datgan fod yr arwyddion yn y mannau priodol wrth Stryd y Prys, ond mae wedi addo cynllun i wella gwelededd.

Mae gwelededd yn bryder wrth Tyddyn Felin, ac mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi arweiniad ar wella'r safle hwn.

Penyffridd: mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd i docio coed i wella gwelededd yn y fan hon.

Gordyfiant ym Maesypandy: ar ddiwedd mis Medi gwnaeth Cynefin addo y byddant yn tocio.

Gordyfiant gwrych yn Nhy'n Ddôl : dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans y byddai'n tynnu sylw Cyngor Gwynedd gan fod y gordyfiant yn culhau'r ffordd.

**2957** **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd Adroddiadau -

1. Grŵp Datblygu: aros am ateb i gais am sgwrs gan Elen Hughes, Parc Cenedlaethol Eryri
2. Mynwentydd: Gofynnwyd yn garedig i'r is-bwyllgor drefnu clirio'r fynwent o fewn y pythefnos. Gan fod Sul y Cofio ar y gorwel, gofynnwyd i Glerc y Fynwent drefnu ail osod y llechen ar y porth. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ceisio cael defnydd i lenwi'r tyllau yn y maes parcio. Dywedodd Alwyn E Jones y byddai'n pwyso ar y gof lleol i drwsio caead y giât.
3. Bioamrywiaeth: mae nifer o grantiau ar gael dim ond i'r pwyllgor wneud ceisiadau; soniwyd am y posibilrwydd o arddwyr lleol gynllunio gardd fach yn ardal y Gofeb; soniwyd hefyd am flodau cynhenid wrth ddod i mewn i'r pentref.
4. Nadolig: mae nifer o syniadau ond nid yw'r pwyllgor wedi cyfarfod yn ffurfiol eto.
5. Asedau: diolchwyd i Heledd Jones am gynnig llety eto i'r meinciau yn selar Caer Meini, ac i Alwyn E Jones am gynnig eu cludo yno.
6. Cyllid: cafwyd adroddiad o gyfarfod 3/10/23. Derbyniwyd gwybodaeth lawn am y sefyllfa ariannol ac roedd bodlonrwydd fod y derbyn a'r gwario fel a ragwelwyd wrth lunio'r Gyllideb ar gyfer y flwyddyn.
   Nid yw'r Cyngor wedi derbyn Adroddiad yr Archwilydd Allanol ers 3 mlynedd, a chytunwyd i beidio a thalu am y 2 flynedd flaenorol gan na chafwyd budd o Adroddiad. Cytunwyd i argymell fod y Cyngor yn talu hanner y costau am uwchraddio'r TG yn y neuadd i ateb ein gofynion fel Cyngor.
   Cytunwyd fod **pob is-bwyllgor yn cyflwyno eu hanghenion ariannol ar gyfer y flwyddyn 2024-25 erbyn 4/12/23** pryd y bydd yr is-bwyllgor yn drafftio'r Gyllideb.

**2958** **Materion Ariannol:** Derbyniadau ac anfonebau'r mis (SAC) – dosbarthwyd cyn y cyfarfod. Talwyd CCF £211. Taliadau o dan Cytundebau: Clerc; SAC; Glanhau; Mynwent (a gwrych); Mantell Gwynedd; HMRC

**2959** **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniwyd am y cais a wnaethpwyd i uwchraddio cragen adeilad Canolfan Tegid. Mae llawer o weithgareddau'n cael eu cynnig yno a hynny er llesiant holl bobl Penllyn.

**2960** **Cynllunio:** Ystyriwyd **NP5/71/53D** sef Trosi adeilad allanol i greu aneces i'r tŷ presennol, Ty'n-y-Llechwedd, Parc. LL23 7YN

Heriwyd y term "anecs" yn y cais – mae'r cynlluniau yn debycach i "barn conversion" i greu uned mwy o faint na'r gwreiddiol. Mae'n uned a fyddai'n gallu gweithredu ar ei ben ei hun yn annibynnol o unrhyw adeilad arall. Mae galw'r cynllun yn "anecs" yn gam-arweiniol. Mae pellter mawr rhwng y term "anecs" a'r cynllun arfaethedig.

Dywedwyd fod angen i'r cais cael ei ystyried yn ei gyd-destun cywir; mae'r lle parcio, y ffordd newydd at y beudy bach, y wal gynnal, y tanc septig ar gyfer defnydd 12 person – i gyd yn arwain at weld y datblygiad fel rhan o greu *complex* o ddarpariaeth gwyliau/ail gartrefi ar y safle hwn.

Roedd y Cynghorwyr yn dymuno nodi fod y Cyngor Cymuned wedi creu a mabwysiadu Cynllun Ardal ar gyfer cymuned Llanuwchllyn; casglwyd data sy'n ei gwneud yn eglur fod yna ddwyster o dros 20% o ddarpariaeth gwyliau /ail gartrefi eisoes yn bodoli yn yr ardal. Nid ydynt yn ystyried y byddai'r datblygiad hwn o unrhyw fudd amlwg yn lleol.

Nid oedd y Cynghorwyr yn cymeradwyo'r cais.

**2961** **Gohebiaeth:** Yn cynnwys,

1. Llythyr lleol – nodwyd derbyn, ond mater i Gyngor Gwynedd oedd hwn.
2. Un Llais Cymru: nodwyd derbyn Rhaglen Hyfforddi.
3. Un Llais Cymru: nodwyd derbyn gwybodaeth am grant ar gyfer Bioamrywiaeth.
4. Un Llais Cymru: nodwyd derbyn Cylchlythyr.
5. Un Llais Cymru: nodwyd derbyn gwybodaeth am gyfarfod Meirionnydd 4/10/23.
6. Cyngor Gwynedd: nodwyd derbyn y bydd gwaith yn cael ei wneud wrth Rhydydrain – torri llystyfiant; pyst cyfeirbwyntio.
7. Cyngor Gwynedd: cyflwynwyd Huw Antur fel y Swyddog Datblygu Bro a soniodd am y grantiau ar gyfer Cynlluniau Bwyd a Natur.

**2962** **Materion lleol y Cynghorwyr:**

Mynegwyd y dymuniad am arwydd yn nodi mai Llanuwchllyn yw man geni'r Urdd; nodwyd hefyd yr angen i harddu o gwmpas y Gofeb a'r mynedfa i'r pentref – pwyllgor Bioamrywiaeth i drafod.

Mae angen gwella'r ffens o gornel mynwent yr Eglwys hyd at y bont.

Holwyd am linellau dwbl o dan lle bu'r hen bont rheilffordd, a symud y "plismon cysgu" gan fod y rheol 20mya yn bodoli bellach.

**2963** **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 7/11/23 yn y Neuadd Bentref.

***Amser gorffen: 9.10pm***